

Anghydraddoldebau iechyd - adroddiadau

Cyhoeddwyd nifer o adroddiadau ers y 1960au. Maent wedi gwneud cyfraniad pwysig at ein dealltwriaeth o anghydraddoldebau mewn perthynas ag iechyd a'r ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau mewn cyfraddau morbidrwydd a marwolaeth.

Tasg 1:



European city of Culture?, Christopher Furlong / getty images

'Disgwylir i fabanod a gaiff eu geni yn Glasgow fyw'r bywydau byrraf o blith unrhyw rai ym Mhrydain. Ni fydd un o bob pedwar dyn o Glasgow yn cyrraedd ei ben-blwydd yn 65 oed. Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar "Effaith Glasgow" ac a ellir ei hatal?'

<http://www.who.int/bulletin/volumes/89/10/11-021011/en/>

1. Ystyriwch gymhariaeth rhwng dynion yn Glasgow a dynion yn Iraq.

Tasg 2: Dadansoddwch yr erthyglau o'r Guardian isod

2. Nodwch 2/3 phwynt a ddefnyddiwyd i egluro pam bod disgwyliad oes yn gymharol isel yn Glasgow o gymharu â dinasoedd eraill yn y DU â ffactorau economaidd-gymdeithasol tebyg neu wledydd eraill mewn rhannau tlotach o'r byd.

<https://www.theguardian.com/society/2006/jan/21/health.politics>

<https://www.theguardian.com/uk/2011/jun/08/glasgow-city-where-die-young>

Tasg 3: Mewn erthygl ddiweddarach o 2014, nodir nad yw'r disgwyliad oes ar gyfer dynion yn Glasgow wedi newid o gymharu â dinasoedd eraill.

<https://www.theguardian.com/news/datablog/2014/apr/16/commonwealth-games-2014-glasgow-lowest-life-expectancy-uk>

Mae'r un wybodaeth ar gael ar YouTube i'r rheini y mae'n well ganddynt weld gwybodaeth ar ffurf weledol. Mae nifer o glipiau y gellir dewis o'u plith.

<https://uk.video.search.yahoo.com/search/video?fr=mcafee&p=the+glasgow+effect+youtube#id=7&vid>

https://www.youtube.com/watch?v=_HizPT59GCM

3. Cymharwch y rhaniad rhwng y gogledd a'r de a nodwyd yn yr erthygl.
4. Ble mae'r disgwyliad oes uchaf adeg geni i ddynion a ble mae'r isaf?
5. Nodwch yr ardal lle ceir y disgwyliad oes uchaf ac isaf i ferched yn y DU.

Tasg 4: Dadansoddwch yr erthyglau isod

<http://www.bbc.co.uk/news/magazine-27309446>

<http://www.who.int/bulletin/volumes/89/10/11-021011/en/>

<http://life.mappinglondon.co.uk/>

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-london-18917932>

O'r erthyglau uchod, nodwch bolisiau a awgrymwyd er mwyn gwella'r sefyllfa mewn ardaloedd lle mae disgwyliad oes yn isel.

Yr Adroddiadau

Ers 1980, cyhoeddwyd nifer o adroddiadau a gynigiodd esboniadau am yr anghydraddoldebau ym maes iechyd mewn gwahanol ardaloedd o'r DU a rhwng gwahanol ddemograffeg.


Lluniwyd rhai ohonynt gan y llywodraeth neu cawsant eu noddi gan y llywodraeth, a lluniwyd eraill gan ymchwilyr annibynnol.

Mae'r pedwar prif adroddiad/adolygiad y dylech fod yn ymwybodol ohonynt fel a ganlyn:

1. Adroddiad Black – 1980
2. Adroddiad Whitehead - 1987
3. Adroddiad Acheson: "Inequalities in health: report of an independent inquiry" - 1998
4. Adolygiad Marmot – Fair Society, Healthy Lives – 2010.

1. Adroddiad Black

Comisiynwyd yr Adroddiad hwn gan y llywodraeth Lafur yn 1977 ond cyflwynwyd yr adroddiad i lywodraeth geidwadol yn 1980. Ceisiodd y llywodraeth geidwadol hon gelu'r canfyddiadau drwy gyhoeddi'r adroddiad ar wyl y banc mis Awst y flwyddyn honno.



Datgelodd y canfyddiadau fod dosbarth cymdeithasol yn ffactor achosol amlwg mewn perthynas â chyfraddau morbidrwydd a marwolaeth. Er enghraifft, roedd y rheini yn nosbarth cymdeithasol 5 ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o farw cyn oedran ymddeol na'r rheini yn nosbarth cymdeithasol 1.

Dadleuodd yr Adroddiad fod yr ystadegau yn dangos bod y bwlb rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol wedi bod yn tyfu ers sefydlu'r GIG yn 1948 ac nad oedd yn deillio o'r GIG ei hun. Gellid ystyried y bwlb rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol mewn perthynas ag iechyd, addysg, tai, incwm, cyflogaeth gan gynnwys amodau'r gweithle a deiet.

Argymhellion yr Adroddiad

Roedd y rhain yn cynnwys gwell cyfleusterau i famau a babanod, addysg iechyd mewn ysgolion, cyllid ychwanegol i ardaloedd tlotach, diddymu tloidi plant erbyn diwedd yr 1980au, cynyddu budd-dal plant, prydau bwyd ysgol am ddim a darparu gofal i'r henoed a phobl anabl yn eu cartrefi.

Gwnaed cyfanswm o 37 o argymhellion ac ni weithredwyd ar lawer ohonynt.

Mae Cymdeithas Iechyd y Sosialwyr wedi llunio crynodeb defnyddiol o'r argymhellion a beth a ddigwyddodd iddynt ar ôl 25 mlynedd. Gellir gweld yr Adroddiad llawn ar y wefan ganlynol:

<https://www.sochealth.co.uk/national-health-service/public-health-and-wellbeing/poverty-and-inequality/the-black-report-1980/whatever-happened-to-the-black-report/>

Mae'r argymhellion yn darparu mwy o fanylder na'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer astudio U2 ond maent yn ddeunydd darllen diddorol i'r rheini sydd am wybod mwy am yr Adroddiad. Yn yr un modd, nid oes angen bod yn ymwybodol o gymaint o fanylion am yr esboniadau a ddarperir ym mhennod 6 ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r pedwar esboniad a nodir yn yr Adroddiad a'u deall.

Mae Pennod 6 yr Adroddiad yn ymdrin â'r esboniadau am yr anghydraddoldebau.

Nododd Adroddiad Black bedwar esboniad posibl am yr anghydraddoldebau rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol, sef: esboniadau arteffact, damcaniaethau dethol naturiol neu gymdeithasol, esboniadau diwylliannol/ymddygiadol ac esboniadau materolaidd.

Yng nghasgliad yr adroddiad, nodwyd safbwyntiau aelodau'r grŵp ymchwil mewn perthynas â'r pedwar esboniad:

“Intellectual honesty demands that we make clear our belief that it is in some form or forms of the ‘materialist’ approach that the best answer lies.”

Tasg: Gan ddefnyddio ffynonellau megis Waugh, C et al (2008) *Sociology* Heinemann i'ch helpu, ysgrifennwch grynodeb byr o'r pedwar esboniad.

Ymateb awgrymedig

Yr esboniad arteffact

Mae'r esboniad hwn yn awgrymu y gall ystadegau iechyd ddangos tueddiadau anfwriadol. Er enghraifft, gall y trefniadau ar gyfer cofnodi achosion marwolaethau amrywio rhwng rhanbarthau. Hefyd, mae'r ffordd y gwneir diagnosis o salwch wedi newid. Mae'r rheini sy'n defnyddio'r esboniad hwn hefyd yn dadlau nad yw'r defnydd a wneir o system dosbarthu galwedigaethol y Cofrestrydd Cyffredinol o reidrwydd yn ddefnyddiol gan fod maint y dosbarthiadau cymdeithasol wedi newid ers llunio'r dosbarthiadau gyntaf yn 1911 gan felly olygu ei bod yn anodd cymharu dosbarthiadau. Mae dosbarth cymdeithasol un a phump yn llai na dosbarth cymdeithasol tri ac felly mae'r cymariaethau wedi'u hystumio. Yn y bôn, maent yn dadlau bod y cymariaethau wedi'u llunio ar sail gymdeithasol.

Damcaniaethau dethol naturiol neu gymdeithasol

Mae'r esboniad dethol cymdeithasol yn dadlau bod y rheini sy'n sâl yn debygol o symud am i lawr drwy'r dosbarthiadau cymdeithasol. Mae'r rheini nad ydynt yn iach yn dueddol o symud am i lawr drwy'r dosbarthiadau cymdeithasol o ganlyniad i ddiweithdra, er enghraifft. Gall y rheini sy'n datblygu eu gyrfa neu'n llwyddo ym myd addysg, er enghraifft, symud am i fyny.

Esboniadau diwylliannol/ymddygiadol.

Mae a wnelo'r esboniad diwylliannol â ffordd o fyw. Mae'n awgrymu bod y dosbarth gweithiol yn llai tebygol o ddilyn ffordd o fyw iach na'r dosbarth canol. Maent yn fwy tebygol o ysmegu, bwyta deiet llai iach ac yfed mwy o alcohol.

Esboniadau materolaidd

Mae'r esboniadau hyn yn nodi bod anghydraddoldebau ym maes iechyd yn gysylltiedig ag amddifadedd materol megis tai llaith, gwresogi gwael, incwm isel, llygredd ac amodau gwaith gwael. Hynny yw, mae anghydraddoldebau ym maes iechyd yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol.

Ni lwyddodd awgrym Adroddiad Black mai ffactorau materol oedd y prif reswm dros yr anghydraddoldebau i ddarbwylo'r llywodraeth geidwadol a etholwyd yn 1979. Roedd o'r farn bod unigolion yn bersonol gyfrifol am yr anghydraddoldebau.

Tasg: Pa feirniadaethau y gellid eu gwneud am unrhyw rai o'r uchod neu bob un ohonynt?

Ymateb awgrymedig

Caiff yr esboniad arteffact ei feirniadu gan Illsley a ddywedodd nad oedd yn ddiogel cymharu'r dosbarthiadau uchaf a'r dosbarthiadau isaf gan fod y dosbarthiadau hyn yn lleihau o ran maint. Felly, nid oedd yn ddefnyddiol cymharu'r ddau ddosbarth cymdeithasol eithaf hyn o ystyried mai dosbarth cymdeithasol 3 oedd y dosbarth cymdeithasol mwyaf. Cyfunodd adroddiad Acheson grwpiau cymdeithasol llai er mwyn goresgyn y feirniadaeth hon. Nododd beirniad arall o'r dull arteffact, Carr-Hill (1987), nad oedd yr alwedigaeth a gofnodwyd ar y dystysgrif farwolaeth bob amser yn gywir, ac o ystyried y caiff galwedigaeth ei defnyddio i nodi dosbarth cymdeithasol unigolyn, ni ellid ystyried bod y dull arteffact yn cynnig esboniad cadarn. Mae'r dosbarthiad dosbarthiadau cymdeithasol wedi newid. Cyfeirir ato bellach fel NS-SEC ac mae'n seiliedig ar ddull gweithredu Weberaidd sy'n cynnwys statws a phŵer yn y farchnad swyddi, ond mae Scambler (2012) yn dadlau o hyd nad yw galwedigaeth yn gwbl ddefnyddiol wrth gymharu cyfraddau morbidrwydd a marwolaeth gan fod galwedigaeth, ni waeth sut y caiff ei mesur, yn cynnwys anghydraddoldebau strwythurol ehangach na chânt eu hystyried. Mae Adolygiad Marmot (2010) yn ystyried rhai o'r beirniadaethau hyn.

Damcaniaethau dethol naturiol neu gymdeithasol

Barn fiolegol sy'n dueddol o fod braidd yn gylchol.

Ni all egluro gwahaniaethau rhanbarthol mewn anghydraddoldebau.

Esboniadau diwylliannol/ymddygiadol.

Mae'r rhai sy'n beirniadu'r esboniad hwn yn dadlau y gall pobl o ddosbarthiadau cymdeithasol is ymddwyn mewn ffordd sy'n cymryd risgiau fel ymateb rhesymegol i'w sefyllfa, er enghraifft, smygu. Mae Graham (1993) yn dadlau bod merched o'r dosbarth gweithiol o bosibl yn ysmegu er mwyn ymdopi â'r pwysau sy'n gysylltiedig â'u hamodau materol.

Mae Bartley (2003) yn dadlau nad yw'r dewis i fwyta'n iach bob amser ar gael i'r rheini ar incwm isel oherwydd gall bwydydd iach megis bara brown a ffrwythau a llysiau ffres fod yn ddrud. Ategir hyn gan waith ymchwil cynharach Lobstein (1995).

Mae Annandale a Field (2007) yn dadlau bod gan bobl yn y dosbarthiadau cymdeithasol is ymagwedd dyngedfenyddol at iechyd. Mae ganddynt ddisgwyliadau isel.

Esboniadau materolaidd

Mae'r rhai sy'n beirniadu'r esboniad hwn yn dadlau y gall pobl wneud dewisiadau a bod y dewisiadau a wneir ganddynt yn cael effaith lawer mwy na'u sefyllfa o ran dosbarth fel y cyfryw.

Mae rhai yn dadlau bod geneteg yn chwarae rhan mewn anghydraddoldebau iechyd.

Er bod yr esboniadau hyn yn ddefnyddiol o hyd, mae'r esboniadau a ddefnyddir bellach yn dueddol o gynnwys y canlynol

- Y model ymddygiadol sy'n debyg mewn sawl ffordd i'r dull diwylliannol a amlinellwyd yn Adroddiad Black
- Y model materolaidd - yn y bôn yn debyg i'r dull materol a ddefnyddiwyd yn Adroddiad Black
- Y model seico-gymdeithasol - gall sut mae pobl yn teimlo mewn ymateb i'r anghydraddoldebau a brofir ganddynt effeithio ar eu hiechyd a'r tebygolrwydd y byddant yn mynd yn sâl. Mae hyn yn gysylltiedig ag annibyniaeth yn y gwaith, rhwydweithiau ffrindiau, agosrwydd teuluoedd a chydlynid y gymuned leol.
- Y model cwrs bywyd. Mae'r model hwn yn ystyried profiadau o'r groth i blentyndod ac ati drwy astudiaethau hydredol. Ymddengys fod y gwaith ymchwil i ategu'r model hwn yn dangos sut mae anghydraddoldebau iechyd yn cronni dros oes unigolyn.

Edrychwch yng ngwaith Haralambos neu drwy ddefnyddio gwefannau megis

<https://www.healthknowledge.org.uk>

2. Whitehead – The health Divide

Nododd canfyddiadau Whitehead yn 1987 fod y rhaniad rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol yn cynyddu a bod iechyd y dosbarthiadau cymdeithasol isaf wedi gwaethygu ers Adroddiad Black.

3. Adroddiad Acheson: “Inequalities in health: report of an independent inquiry” - 1998

Adroddiad a gomisiynwyd gan y llywodraeth ar anghydraddoldebau iechyd oedd yr adroddiad hwn. Fe'i comisiynwyd gan y llywodraeth Lafur a ddaeth i rym yn 1997.

Cytunodd Adroddiad Acheson â chanfyddiadau Adroddiad Black, sef bod anghydraddoldebau iechyd yn deillio o ffactorau materol. Daeth yr Adroddiad i'r casgliad bod y bwlch rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol uchaf ac isaf wedi cynyddu a hynny er gwaethaf y cynnydd cyffredinol yn ffyniant y wlad. Adlewyrchwyd y bwlch yn yr anghydraddoldebau cynyddol ym maes iechyd. Ymdriniodd yr Adroddiad hwn â beirniadaethau Illsley o Adroddiad Black drwy gyfuno dosbarthiadau cymdeithasol 1 a 2 ac wedyn 4 a 5.

Roedd yr Adroddiad hefyd yn seiliedig ar gysyniad Sefydliad Iechyd y Byd o 'haenau dylanwad'. Hynny yw, mae anghydraddoldebau iechyd yn seiliedig ar amrywiaeth o ddylanwadau o'r ffactorau economaidd-gymdeithasol i ffyrdd o fyw penodol unigolion.

Mae'r wefan isod yn darparu crynodeb o ganfyddiadau Adroddiad Acheson a'r argymhellion

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/health/222649.stm>

Daw'r rhan Saesneg ganlynol o'r wefan

Iau, Tachwedd 26, 1998 Cyhoeddwyd am 18:09 GMT

Health - The Acheson report up close

Benefits

The report calls for an increase in benefit levels for women of childbearing age, expectant mothers, young children and older people.

It says poverty has a disproportionate effect on children. In the mid 1990s, around a quarter of people in the UK were living below the poverty level.

But among children, the figure was one in three.

The report says children under two are more expensive to look after than older children, but Income Support levels do not reflect this.

It says benefits underestimate the cost of providing a basic standard of living for single parents.

Darllenwch yr erthygl lawn yma <http://bbc.in/2xjCE1M> (Newyddion BBC)

Tasg: O'r erthygl uchod, nodwch dau/tri phwynt y gallech eu defnyddio yn yr arholiad mewn perthynas â chwestiynau am anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig mewn perthynas ag anghydraddoldebau rhwng dosbarthiadau iechyd.

4. Astudiaeth Whitehall

Mae'n werth gwybod am astudiaeth o gyflogeion Whitehall o dan arweiniad Marmot a ddechreuodd yn 1967 - cyn Adroddiad Black - ac a barhaodd yn ystod yr 1980au gydag ail astudiaeth o gyflogeion Whitehall. Canfu'r ddau adroddiad fod gweision sifil ar y graddau is yn fwy tebygol o ddiodef o amrywiaeth o fathau o salwch, gan gynnwys trawiadau ar y galon, strociau a bronchitis. Roedd gwahaniaeth hefyd o ran ymddygiad y rheini ar y graddau is, er enghraifft, mewn perthynas â ysmegu, deiet ac ymarfer corff. Roedd canfyddiadau'r astudiaethau hyn yn rhan o'r dystiolaeth a lywiodd Adolygiad Marmot.

5. Adolygiad Marmot – Fair Society, Healthy Lives – 2010.

Cyhoeddwyd Adolygiad Marmot yn 2010.

<http://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review>

Nodir isod rai o'r canfyddiadau wedi'u haddasu o'r Adolygiad

- Ar gyfartaledd, bydd pobl sy'n byw yn ardaloedd tlotaf Lloegr yn marw saith mlynedd yn gynt na phobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf cyfoethog
- Nid yn unig y bydd pobl sy'n byw mewn ardaloedd tlotach yn marw'n gynt, ond maent yn treulio cyfran fwy o'u bywyd ag anabledd - ar gyfartaledd, cyfanswm gwahaniaeth o 17 mlynedd
- Yr isaf yw statws cymdeithasol ac economaidd unigolyn, y gwaethaf y bydd ei iechyd yn ôl pob tebyg
- Mae anghydraddoldebau iechyd yn deillio pan fydd llawer o ffactorau yn rhyngweithio mewn ffordd gymhleth - tai, incwm, addysg, unigedd cymdeithasol, anabledd - y mae statws economaidd a chymdeithasol unigolyn yn effeithio'n sylweddol ar bob un ohonynt
- Gellir atal anghydraddoldebau iechyd i raddau helaeth. Yn ogystal ag achos cyfiawnder cymdeithasol cryf o blaid ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd, ceir hefyd achos economaidd dybryd. Amcangyfrifir bod anghydraddoldebau iechyd yn costio rhwng £36 biliwn a £40 biliwn y flwyddyn drwy drethi coll, taliadau lles a chostau i'r GIG.
- Er mwyn ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd, bydd angen cymryd camau mewn perthynas â'r holl benderfynyddion cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys addysg, galwedigaeth, incwm, cartref a'r gymuned.

Tasg

1. Ym mha ffordd y mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn newid o ganfyddiadau Adroddiad Black neu Adroddiad Acheson, os o gwbl?
2. Crynowch eu nodweddion cyffredin.
3. Pa fesur y mae Marmot yn ei ddefnyddio ar gyfer anghydraddoldeb cymdeithasol?

Deddfau Seneddol.

Bu rhai deddfau seneddol allweddol y dylech fod yn ymwybodol ohonynt sy'n berthnasol i'r opsiwn hwn.

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – 2005

Er mai bwriad y Ddeddf hon oedd diwygio Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, mae meysydd

Patrymau a thueddiadau

gwan o hyd

Tasg

I ba raddau y mae'r amgylchedd ffisegol lle rydych yn byw yn ystyriol o unigolyn ag anabledd corfforol?

Pam y gallai unigolyn ag anabledd cudd brofi achosion o gamwahaniaethu o hyd?

Deddf Cydraddoldeb 2010

Cyfunodd y Ddeddf hon ddeddfwriaeth flaenorol a oedd yn ymdrin â meysydd o wahaniaethu

Mae'r *nodweddion* a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel a ganlyn:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas neu bartneriaeth sifil (ym maes cyflogaeth yn unig)
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Mae anabledd yn ddiddorol iawn mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

Ymchwiliwch i'r Ddeddf a chrynowch y canfyddiadau. Nid oes angen i chi wybod am y deddfau hyn yn fanwl, dim ond dealltwriaeth fras o'r hyn roeddent yn anelu at ei gyflawni.

Pa feirniadaethau y gellid eu gwneud o'r Ddeddf? Beth mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol diweddar yn ei ddadlau o ran anabledd?

<https://www.equalityhumanrights.com/en>

